Mannau chwaraegar

Cyflwyniad



Mannau campus
Drwy waith dylunio meddylgar gan ymarferwyr, gall hyd yn oed newidiadau bach drawsnewid cyfleoedd yn yr ardal awyr agored wrth i blant chwarae ym myd natur a dysgu amdano.

Dim ots pa faint, pa siâp na beth yw'r gyllideb

Gall cyfleoedd i chwarae ym myd natur gael eu darparu ym mhob math o amgylchedd, waeth beth fo maint neu siâp eich man awyr agored. Gall cyfleoedd i chwarae â byd natur gael eu cynnwys ym mhob parth chwarae, a gallant fod mor syml ag ychwanegu potiau perlysiau yn y gegin fwd, darparu cwcis pren i adeiladu a chreu, neu sblasio â choncyrs wrth chwarae â dŵr. Mae cynnwys cyfleoedd i chwarae ym myd natur ym mhob un o'r gwahanol barthau chwarae'n helpu plant i ddeall eu bod yn rhan o fyd natur, ac yn eu galluogi i ofalu am y byd rhyfeddol sydd o'u cwmpas. Mae astudiaethau'n dangos bod angen i blant gael eu hamgylchynu gan fyd natur er mwyn dysgu'n wirioneddol amdano (Tuuling,et al, 2019).

Mae byd natur yn darparu deunyddiau chwarae cadarn ac amrywiol nad ydynt yn ddrud, y gellir eu hychwanegu at bob ardal ac a fydd yn ennyn diddordeb plant drwy gydol y flwyddyn, p'un a fyddant yn brwsio dail yr hydref, yn addurno peis mwd â blodau neu'n creu celf o gerrig, dail a brigau.

Annibyniaeth a chreadigrwydd

Mae astudiaethau wedi dangos yn gyson bod chwarae ym myd natur yn rhoi hwb i ddatblygiad plant ac yn datgloi creadigrwydd ac yn deffro'r dychymyg. Mae'r sgiliau hynny'n helpu plant i ddeall eu teimladau, cysylltu ag eraill a gwneud synnwyr o'u byd (Dankiw et al, 2020). Dylai parthau awyr agored gynnwys cyfleoedd i chwarae ym myd natur, gan roi rhyddid i blant archwilio, arbrofi a dewis sut i ddefnyddio deunyddiau.

Lle cyfyng ond cyfoethog

Gall hyd yn oed mannau llai o faint gynnig cyfleoedd chwarae o safon sy'n cynnwys digon o chwarae ym myd natur. Mae cyflwyno parthau penagored yn sicrhau bod y chwarae'n parhau yn hyblyg. Er enghraifft, gall ardaloedd o dywod newid o fod yn lleoedd cloddio i fod yn olygfeydd byd bach neu'n ardaloedd adeiladu. Gall corneli clyd droi'n fannau deniadol megis cegin fwd fach, a gellir defnyddio'r waliau a'r ffensys hefyd. Gall paled fertigol syml sy'n sownd wrth ffens droi'n ardd synhwyraidd neu'n lle storio ar gyfer darnau rhydd naturiol. Mae eitemau naturiol y gellir eu symud, megis bonion coed, yn gwneud ardaloedd yn fwy hyblyg fyth, e.e. wrth i gylchoedd o fonion gael eu creu i eistedd neu ddringo arnynt.

Profiadau unigryw

Mae'r man awyr agored yn fyd dysgu yn ei rinwedd ei hun – mae'n fwy nag ychwanegiad at yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhoi lle i'r plant grwydro, creu ac archwilio â'u holl synhwyrau mewn ffyrdd cyffrous ac ystyrlon. Mae deunyddiau naturiol yn gwahodd y plant i archwilio ac arbrofi wrth iddynt ddefnyddio'r deunyddiau i chwarae. Gall adnoddau mawr a bach, o estyll mwy o faint i gerrig bach, gael eu defnyddio mewn ffyrdd creadigol sy'n newid yn barhaus ac sy'n wahanol i'r ffyrdd a brofir dan do.





Meithrin gwydnwch

Mae chwarae ym myd natur yn rhoi lle i blant archwilio, ymarfer, llwyddo, ac weithiau methu, sydd i gyd yn agweddau ar amgylchedd galluogi (Birth to Five Matters, 2026). Mae'r profiadau hynny'n helpu i feithrin gwydnwch, ac yn galluogi'r plant i roi cynnig ar syniadau newydd yn hyderus a bownsio'n ôl pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mannau chwaraegar

Gosod y sylfeini

Er y gall deimlo fel ymrwymiad mawr, bydd ychwanegu chwarae ym myd natur at eich man awyr agored yn dechrau'n aml â'r camau lleiaf. Gall newidiadau syml wneud gwahaniaeth mawr yn gyflym.



Gadewch i'w chwarae arwain y ffordd

Arsylwch y plant er mwyn deall sut y maent yn chwarae â natur ar hyn o bryd yn eich man awyr agored. Bydd eu chwarae yn llywio eich camau nesaf. Wrth i chi arsylwi, ystyriwch:

- A ydynt yn ymgysylltu â byd natur?
- Sut y maent yn defnyddio deunyddiau naturiol?
- Pa adnoddau sydd ar gael eisoes?

Pan fyddwch wedi arsylwi'r plant, dechreuwch drwy ychwanegu adnoddau syml i gyfoethogi'r mannau dan sylw.

Dyma rai syniadau:

- Dail a hadau: ar gyfer peis mwd, ar gyfer brwsio, fel adnodd i wneud marciau ar bethau, neu er mwyn creu darluniau o fyd natur.
- Bonion coed: fel seddau, fel rhwystrau i gadw cydbwysedd arnynt, fel cynfasau wynebau clai neu fel blociau adeiladu.
- Planhigion caled: er mwyn dod o hyd i fwystfilod bach neu fel tirweddau byd bach.

Fel arall, gallech ganolbwyntio ar ychwanegu byd natur at un parth ar y tro.

Gwydnwch yr hinsawdd

Yn ein hinsawdd sy'n newid yn barhaus, mae'n bwysig meddwl ymlaen a pharatoi eich man awyr agored. Cynhaliwch archwiliad o'ch ardal o safbwynt yr hinsawdd. A yw'n cynnig cysgod mewn tywydd poeth a chysgod rhag y gwynt neu'r glaw? Pa mor amrywiol yw'r planhigion? Gall nodweddion naturiol, megis coed ar gyfer cysgod rhag yr haul neu wrychoedd ar gyfer cysgod rhag y gwynt, wneud gwahaniaeth mawr. Mae'n bosibl y bydd yr ychwanegiadau hyn yn cymryd amser i ymsefydlu, ond bydd cynllunio'n feddylgar yn awr o fudd i blant a staff yn y dyfodol.

Waeth beth fo'r tywydd

Dylai'r ardal awyr agored fod yn hygyrch bob dydd, beth bynnag fo'r tywydd. Mae chwarae ym mhob math o dywydd yn meithrin gwydnwch y plant, yn datblygu eu geirfa, ac yn eu helpu i wneud synnwyr o'r byd sydd o'u cwmpas. I wneud yn fawr o gyfleoedd i chwarae ym mhob tywydd, mae angen i blant gael mynediad i ddillad addas. Ystyriwch sut mae darparu dillad o'r fath – drwy lyfrgell ddillad a gedwir yn eich lleoliad, neu drwy ofyn i rieni eu darparu – a phenderfynwch ble a sut y bydd y dillad yn cael eu storio. Bydd man newid, y tu mewn neu dan ganopi yn yr awyr agored, yn helpu plant i baratoi ar gyfer eu hanturiaethau yn yr awyr agored.

Trefnu a storio

Un o fanteision mawr deunyddiau naturiol yw eu bod yn tueddu i fod yn adnoddau caled sy'n addas ar gyfer pob tywydd ac y gellir eu gadael allan ym mhob tywydd, e.e. cerrig neu foncyffion. Gellir defnyddio tybiau storio megis tybiau hyblyg i storio darnau rhydd mawr y tu allan, a gall darnau rhydd llai o faint gael eu cadw mewn potiau sy'n sownd wrth baled neu ffens. I atal dŵr glaw rhag cronni, gallech hyd yn oed ddefnyddio potiau planhigion ar gyfer eich trysorau naturiol llai o faint.





Dylunio mannau diogel, chwaraegar

Mae chwarae diogel yn yr awyr agored yn dechrau gyda gwaith dylunio meddylgar yn hytrach na chyfyngiadau llym. Bydd dewis gwelliannau naturiol yn ofalus yn helpu i greu mannau lle gall y plant archwilio'n hyderus ac yn greadigol. Sicrhewch fod pob adnodd yn cael ei wirio a'i fod yn hollol addas i'r ffordd y bydd yn cael ei ddefnyddio.

Mannau chwaraegar
Myfyrio am brofiadau

Bydd mannau awyr agored yn esblygu bob amser, felly mae'n bwysig oedi i fyfyrio am eich llwyddiannau a meddwl ble y gallwch dyfu. Gan eich bod wedi cyflwyno chwarae ym myd natur yn awr, beth fydd yn dod nesaf yn naturiol?



Ymchwilio i'r chwarae

Oedwch i fyfyrio am y chwarae ym myd natur sy'n digwydd yn awr yn y man awyr agored.

A yw'r gwelliannau naturiol wedi gwella ansawdd y chwarae? Ystyriwch:

- a yw'r plant yn gallu chwarae yn eu ffordd eu hunain.
- a yw'r plant yn gallu gwneud amrywiaeth o ddewisiadau.
- a oes gan y plant lawer o bosibiliadau i greu ac i ddatblygu eu chwarae eu hunain.(Chwarae Cymru, 2025)

Mae myfyrio'n rheolaidd am chwarae eich plant yn helpu i lunio a chynnal man o safon.

Arallgyfeirio

Bydd cynnal archwiliad mwy trylwyr o'r ddarpariaeth yn eich ardal awyr agored yn hybu eich ymarfer ac yn eich helpu i benderfynu ar eich camau nesaf.
Bydd eich man cychwyn yn eich galluogi i benderfynu i ba gyfeiriad y dylech fynd, p'un a yw hynny'n golygu ychwanegu rhagor o barthau chwarae at eich ardal neu'n golygu ystyried prosiect penodol, e.e. ychwanegu gwahanol arwynebau naturiol at eich man awyr agored neu blannu coed.

Lle i bawb: myfyrio am gynhwysiant

Mae chwarae ym myd natur yn arwain at fanteision enfawr i bob plentyn, ac mae'n arbennig o bwerus i blant ag anghenion ychwanegol neu anableddau (Sensory Trust, 2020). Myfyriwch am y cyfleoedd y mae eich man awyr agored yn eu darparu.

- A yw'n hygyrch drwy gydol y flwyddyn
- A oes gwahanol fathau o brofiadau o chwarae ym myd natur ar gael?
- A yw'n deffro'r synhwyrau?

Hunan-dwf: cyfle i'r staff fyfyrio

Myfyriwch am sut y mae eich ymarfer wedi tyfu, fel tîm ac fel unigolion. Yn union fel y plant, rydym i gyd yn datblygu ar ein cyflymder ein hunain. Os yw rhai aelodau o staff yn dal yn llai hyderus wrth ddarparu cyfleoedd i chwarae ym myd natur yn eich man awyr agored, parwch nhw ag aelod mwy hyderus o staff pan fyddant y tu allan.

Gall fod yn demtasiwn canolbwyntio'n unig ar beth y mae angen i ni ei wneud nesaf, ond mae'n bwysig myfyrio am ein llwyddiannau. Efallai y bydd un plentyn bach wedi aros i arogli'r perlysiau yn eich llestr plannu, neu efallai y bydd grŵp wedi mwynhau hela dail yr hydref. Dylai'r buddugoliaethau bach hyn roi hwb enfawr i chi!

Yn hawdd ac yn hwylus

Mae'n bwysig cofio y dylai chwarae ym myd natur fod ar gael drwy gydol y flwyddyn. Meddyliwch sut y gallwch gadw'r holl beth i fynd, gan sicrhau bod hynny'n hawdd ac yn hwylus i'r staff. Penderfynwch sut y byddwch yn cynllunio ar gyfer eich gwelliannau a'ch gweithgareddau – a fyddwch yn penodi un person i fod yn gyfrifol am gasglu a gwirio'r ddarpariaeth ar gyfer un parth awyr agored, gyda phawb yn cynnig syniadau? A fydd yna dîm penodol a fydd yn gwirio'r adnoddau i gyd ac yn casglu deunyddiau?





Cymunedau chwaraegar

Wrth chwilio am adnoddau pellach ar gyfer eich mannau a'ch gweithgareddau chwarae ym myd natur, ystyriwch ofyn am adnoddau gan eich teuluoedd neu gan fusnesau yn eich cymuned leol. Efallai fod gennych riant sy'n trin coed neu aelod o deulu sydd â rhandir, a all ddarparu'r deunyddiau sydd eu hangen arnoch.

Mannau chwaraegar

Meddwl a darllen ymhellach

Ceir llawer o ffyrdd o barhau i ddysgu am fan awyr agored gan ystyried chwarae ym myd natur. Dyma rai syniadau i ddatblygu ymhellach eich dealltwriaeth eich hun o bŵer mannau chwarae ym myd natur.



Rhannu arfer da

Un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o ddatblygu ymhellach yw ymweld â lleoliadau eraill i gasglu a rhannu syniadau newydd. Mae yna rywbeth newydd i'w ddysgu bob amser, ac un ffordd wych o ddysgu yw gweld rhywbeth ar waith. Cysylltwch â thîm Blynyddoedd Cynnar eich awdurdod lleol i gael gwybod am leoliadau eraill i ymweld â nhw, oherwydd bydd gan y tîm hwnnw drosolwg o'r ymarfer sydd ar waith yn eich ardal chi. Byddwch yn bioden a dygwch syniadau newydd ar gyfer eich lleoliad chi, a rhannwch eich syniadau chi ag eraill.

Diwrnodau arbennig

Mae yna lawer o ddiwrnodau dathlu'r awyr agored i'w hystyried drwy gydol y flwyddyn, o Ddiwrnod Bywyd Gwyllt y Byd ym mis Mawrth i Ddiwrnod Cuddfannau ym mis Mehefin. Darllenwch restr Muddy Faces o ddiwrnodau ar gyfer digwyddiadau arbennig. Wrth i chi archwilio'r diwrnodau hynny gyda'r plant, byddwch hefyd yn ehangu eich gwybodaeth eich hun yn naturiol am chwarae ym myd natur.

www.muddyfaces.co.uk/events/annual-special-days-weeks-months

Cyhoeddiadau ac arweiniad ar gyfer mannau Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar: ltl.org.uk/publications:

- A Vision and Values for Early Years Outdoors
- Early Years Outdoor Practice Audit
- Learn and Play Out
- Loose Parts Play Toolkit
- Looked After Children and the Natural Environment
- Nature Play: Maintenance Guide

Gwefannau defnyddiol ar gyfer datblygu gwybodaeth ac ymchwil am fannau awyr agored:

- Children and Nature Network: www.childrenandnature.org
- Froebel Trust: www.froebel.org.uk
- Early Excellence: www.earlyexcellence.com
- Creative Star Learning: www.creativestarlearning.co.uk
- EEF: www.educationendowmentfoundation.org.uk
- Muddy Faces: www.muddyfaces.co.uk
- Thrive Outdoors: www.thriveoutdoors.org.uk
- Montessori Play Theory: www.montessorifortoday.com

Proses newid

Cofiwch fod mannau awyr agored yn esblygu bob amser. Y ffordd orau o gadw eich mannau awyr agored yn ffres ac yn gyffrous i blant yw dilyn y broses newid a ddangosir isod. Bydd dilyn y cylch yn eich helpu i sicrhau bod eich man awyr agored yn parhau'n ymatebol ac yn eich helpu i ddarparu amgylchedd sy'n llawn posibiliadau.

.



Gwefannau defnyddiol ar gyfer datblygu meysydd dysgu penodol mewn mannau awyr agored:

Yr Ymddiriedolaeth Addysgu Gwyddoniaeth Gynradd: www.pstt.org.uk/resources/play-observe-ask

National Education Nature Park: www.educationnaturepark.org.uk/resource/eyfs-nature-park-guide

Teach Early Years: www.teachearlyyears.com/learning-and-developmenthttps

Llawlyfr: https://hwb.gov.wales/api/storage/47d84348-9f29-4cf5-9345-ed224ebb9849/y-cyfnod-sylfaen-llawlyfr-dysgu-yn-yr-awyr-agored.pdf

Mannau chwaraegar

Ycamau nesaf

Pan fyddwch yn gweld wynebau'r plant yn llonni wrth iddynt chwarae â byd natur, byddwch yn cael eich ysbrydoli i gadw'r momentwm i fynd. Mae pob ychwanegiad bach yn gam tuag at y syniad mawr nesaf!



Creu parthau

Mae rhannu eich man awyr agored yn barthau'n ffordd wych o ddarparu cyfleoedd dysgu cyflawn i'r plant ac o'i gwneud yn haws hefyd i chi sylwi ar ffyrdd newydd o wella eich amgylchedd. Bydd datblygu'r parthau drwy gynllunio'n feddylgar yn datblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau echddygol bras a manwl a sgiliau mathemateg a llythrennedd cynnar yn awtomatig. A bydd y cyfan yn digwydd wrth i'r plant gael hwyl yn chwarae ac yn dysgu am eu byd!

Awgrymiadau am barthau

- Lle i chwarae actif – rhedeg, neidio, dringo, symud yn rhydd
- Ardal i chwarae â mwd
- Ardal ar gyfer darnau rhydd – deunyddiau rhydd mawr a bach
- Ardal i chwarae â dŵr
- Ardal i arddio – lle i blannu ac i archwilio bwystfilod bach
- Ardal i gloddio – rhywle sy'n wahanol i'ch ardal i chwarae â mwd, e.e. tywod
- Ardal dawel – darllen, ymlacio
- Ardal i chwarae rôl

Ambell gyngor am sut mae dal ati

- Sicrhewch fod eich adnoddau mor benagored ag sy'n bosibl. Bydd hynny'n hybu dychymyg a chreadigrwydd y plant, a bydd yn fanteisiol hefyd o ran eich galluogi i gyfnewid adnoddau rhwng ardaloedd ac osgoi gorfod prynu rhywbeth newydd bob tro.
- Adolygwch y parthau chwarae'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cynnig y mathau o chwarae sydd eu hangen ar eich plant, ac addaswch nhw fel y bo angen.

Gwelliannau rhyfeddol

Defnyddiwch y tymhorau i ychwanegu elfen o ryfeddod yn hawdd ac yn rhad at eich ardaloedd.

- Yn yr hydref: ewch i hela dail yr hydref a hadau sycamorwydden, defnyddiwch begiau i roi'r dail i hongian ar lein ddillad, crëwch orsaf rholio concyrs, a throellwch fel yr hadau pan fyddant yn disgyn.
- Yn y gaeaf: gwnewch farciau mewn iâ, rhyfeddwch at we pry' cop rhewllyd, defnyddiwch frigau i adeiladu cartref ar gyfer anifeiliaid sy'n gaeafgysgu, a chrëwch gemau egnïol i gadw'n gynnes.
- Yn y gwanwyn: ychwanegwch flodau at ddŵr neu gwnewch gymysgeddau, chwiliwch am fwystfilod bach a chrëwch gynefinoedd, defnyddiwch berlysiau mewn peis mwd, ac ychwanegwch lygaid y dydd at weithgareddau chwarae â chlai.
- Yn yr haf: archwiliwch gysgodion y tu allan, ac ewch ar helfa blodau'r enfys.

Dysgu o ddrygioni

Cofiwch mai plant yw plant. Felly, mae'n bosibl y bydd rhai archwilwyr bach yn cloddio'n rhy frwdfrydig wrth ymyl planhigion, neu'n postio brigau i mewn i rywbeth nad oes modd ei gyrraedd. Peidiwch â digalonni! Gall fod yn eiliad i addysgu'r plant. Neilltuwch eiliad i adolygu'r sefyllfa – sut y gallwch addysgu'r plant i gael hwyl ond gan ofalu nad ydynt yn achosi difrod? A oes angen symud rhai adnoddau i rywle arall? A oes angen cyflwyno gweithgaredd newydd, e.e. gweithgaredd postio?





Tywydd bendigedig

Mae gwahanol fathau o dywydd yn cynnig gwahanol brofiadau dysgu i'r plant. Pan fyddwch i gyd wedi gwisgo dillad addas, yn eich dwylo chi y bydd yr awenau wedyn! Bydd modelu ffyrdd o ddefnyddio'r tywydd i chwarae, a helpu'r plant i ymgolli, dysgu a chael hwyl, yn helpu i greu dysgwyr pob tywydd a staff pob tywydd!